CYNGOR BRO LLANGWM A DINMAEL

COFNODION CYFARFOD ZOOM 1af RHAGFYR 2020

PRESENNOL – Glenydd Evans (Cadeirydd), Awel Mai Hughes, Sioned Jones, Carwyn Edwards, Llyr Jones, Gwyndaf Jones, Gwynfryn Jones, Mel ab Owain (Unllais Cymru) Rhian Ellis (Clerc)

YMDDIHEURIADAU – Gwyn Davies.

Croesawodd y Cadeirydd pawb I'r cyfarfod cyn rhoi yr awenau drosodd I Mel ap Owain.

1. CYLLIDEB 2021-22 A'R PREASEPT AR GYFER 2021-22
   Trafodwyd y Gyllideb a nodwyd bod angen rhoi £500 ar gyfer Cyngor Cyfreithiol yn ymwneud a'r neuadd Fach a hefyd £200 ar gyfer costau cynnal y Wefan.
   Cafwyd y gyllideb ei chymeradwyo gyda newidiadau gan Gwyndaf Jones a eilwyd gan Carwyn Edwards gyda phawb yn cydweld.
   Cytunwyd a pawb yn hapus I ofyn am yr un faint o Presept a llynedd sef £4,200
   Paswyd bod y Cyngor Bro yn clustnodi £5000 tuag at cronfa y Cae Chwarae a hefyd tuag at cynnal a chadw y Neuadd Fach.

2. CADARNHAU TALIADAU AR GYFER BLYNYDDOEDD BLAENOROL
   Cadarnhawyd I dalu yr holl daliadau blaenorol gyda'r holl aelodau yn eu cymerdawyo.

3. CADARNHAU LLOFNODDWYR AR GYFRIFON BANC
   Y Clerc I wneud ymholiadau yn y Banc i weld pwy sydd yn arwyddo sieciau.
   Penderfyniad y pwyllgor yw bod rhaid i 2 aelod o'r Cyngor arwyddo sieciau bob amser.

4. TAW
   Angen i'r Clerc ynghyd a Awel i edrych fewn i gael ad-daliad TAW a bod angen gwneud hyn yn flynyddol o hyn ymlaen.

5. TRWYDDED DATA GYDA'R ICO
   Cost o £40 I gael y drwydded. Cynigwyd I fwrw ymlaen a hyn gan Gwyndaf Jones ac eilwyd gan Awel Hughes.

6.ASSESIAD RISG

   Cymeradwyd yr Assesiad Risg yn unfrydol ond ei bod wedi ei chyfieithu erbyn y cyfarfod nesaf ac yn cael ei adolygu yn rheolaidd.

Diolchodd y Cadeirydd i Mel ab Owain am ei gymorth I symud ymlaen gyda gwaith y Cyngor ac i'r aelodau am eu gwaith.